# O'R WASG

Dyma rai cyhoeddiadau diddorol sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar. Gofynnwch amdanynt yn eich llyfrgell leol neu'n well fyth yn y siop lyfrau agosaf.

**Llyfryddiaeth Cymru 1985-1986**
**Llyfryddiaeth Cymru 1987-1988**
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
**Pris: £30.00 yr un**

*Llyfryddiaeth Cymru — A Bibliography of Wales* yw'r llyfryddiaeth bwysig newydd a fydd yn cofnodi gwybodaeth am gyhoeddiadau cyfredol am Gymru, ei phobl a'u diddordebau. Anelir at gynnwys popeth perthnasol a gyhoeddwyd o 1985 ymlaen yng Nghymru boed ar ffurf llyfr neu fel erthygl o gyfnodolyn. Rhestrir hefyd yr eitemau hynny o ddiddordeb Cymreig sydd wedi ymddangos y tu allan i Gymru yn ystod yr un cyfnod.

Dehonglir y term 'diddordeb Cymreig' mewn modd rhyddfrydig ac fe gynhwysir ynddo y gwyddorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â llenyddiaeth, celf a cherddoriaeth. Nodir ffuglen mewn Saesneg sydd gan awdur Cymreig neu sydd ar destun Cymreig amlwg neu'n cynnwys thema Arthuraidd. Rhoddir cyfrif hefyd am weithiau ar y Celtiaid yn gyffredinol neu ar agweddau o'u hanes a'u diwylliant. Rhestrir llawer o gyhoeddiadau swyddogol ond ni cheisir cynnwys adroddiadau blynyddol sefydliadau, cymdeithasau ac adrannau o lywodraeth leol. Ni chynhwysir ychwaith bapurau newydd, traethodau ymchwil, mapiau nac effemera.

Cynhyrchir y Llyfryddiaeth mewn ffurf brintiedig ac mae'r cyfrolau cynnar yn adrodd am gyfnod o ddwy flynedd yr un. Mae Cyfrol 1 (1985-86) a Chyfrol 2 (1987-88) wedi eu cyhoeddi, ac fe fydd Cyfrol 3 (1989-90) a Chyfrol 4 (1991-92) yn dilyn yn fuan. Trefnir y cofnodion ym mhob cyfrol mewn dwy ran, sef y cyfan yn ôl trefn pennawd testunol ac wedyn yr un cofnodion eto yn ôl trefn awdur.

Cynigia'r cyhoeddiad hwn y modd gorau sydd mewn print o chwilio am wybodaeth ar sail testunol am y lliaws o bynciau sydd yn adlewyrchu bywyd a diwylliant yng Nghymru ac sydd wedi ymddangos yn yr argraffiad cenedlaethol neu mewn mannau eraill. Fel olynydd i *Bibliotheca Celtica* (1909-1984) a *Subject Index to Welsh Periodicals* (1968-1984) fe fydd yn gyfeirlyfr amhrisiadwy i ysgolheigion a llyfrgellwyr yn ogystal ag i athrawon, haneswyr lleol a phawb sydd â diddordeb mewn materion Cymreig.

Cyfeirlyfr amhrisiadwy i bawb sydd â diddordeb yng Nghymru.

* * * *

**PRESS, POLITICS AND SOCIETY: a history of journalism in Wales.**
**Aled Gruffydd Jones**
**Gwasg Prifysgol Cymru**
**Pris: £29.95**

Dyma'r astudiaeth hanesyddol gyntaf sydd yn rhoi sylw i hynt a helynt newyddiaduron a newyddiaduriaeth yng Nghymru. Rhoddir sylw i ddwy ganrif ac i gynnyrch dwy iaith. Mae'r gyfrol yn edrych ar y newidiadau sydd wedi digwydd yn nhrefniadaeth newyddiaduraeth, yn y diwydiant argraffu ac yn y dulliau dosbarthu. Maes arall gaiff gryn sylw yw perchnogaeth a nawddogaeth y wasg gan fudiadau gwleidyddol a chrefyddol. Ceir hefyd ymdriniaeth sydd yn gosod y diwydiant newyddiadurol yn ei gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal â golwg ar amodau gweithio a dulliau byw golygyddion, is-olygyddion, gohebwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â chreu a gwerthu newyddiaduron. Yn olaf, wrth ymdrin â'r ganrif bresennol mae'r awdur yn ystyried y berthynas sy'n bodoli rhwng y wasg a'r cyfryngau newydd radio a theledu. Mae'r gyfrol yn cynnwys troednodiadau helaeth, llyfryddiaeth gynhwysfawr a mynegai defnyddiol.

* * * *

**A CATALOGUE OF THE LIBRARY OF THE NATIONAL MUSEUM OF WALES:**
**Volume 1 — Books Printed Before 1701**
**John R. Kenyon**
**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
**Pris £7.99**

Mae Llyfrgell yr Amgueddfa Genedlaethol gyda tua 150,000 o gyfrolau yn ffurfio rhan allweddol o ddyletswyddau curadurol yr Amgueddfa. Mae'r casgliad o lyfrau prin sydd yno, yn arbennig y rhai a argraffwyd cyn 1800, wedi ei greu yn bennaf trwy roddion caredigion yn ystod y blynyddoedd 1939-1954. Cyhoeddwyd catalog o lyfrgell un o'r caredigion hyn, sef Willoughby Gardner, yn 1982 ond mae'r catalog presennol yn cynnwys y cyfrolau sydd wedi eu dyddio cyn 1701 sydd yn y casgliad hwnnw. Bwriad yr Amgueddfa yw y bydd ail gyfrol y catalog yn rhestru'r cyfrolau cyn 1815 sydd yng Nghasgliad Tomlin ac y bydd y drydedd yn rhestru'r llyfrau topograffyddol sydd yn ymwneud â Chymru ac a gyhoeddwyd yn ystod y ddeunawfed ganrif a rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r catalog yn cynnwys 319 o deitlau sydd wedi eu rhestru yn ôl trefn y wyddor, gyda rhif, o dan awdur neu air allweddol yn y teitl os nad oes awdur amlwg. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau sydd yn y catalog yn cael eu cadw ym Mhrif Lyfrgell yr Amgueddfa ym Mharc Cathays tra bo rhai eraill fel argraffiadau Cymraeg o'r Beibl yn cael eu cadw yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Ceir mynegai argraffwyr a chyhoeddwyr hefyd yn ogystal â rhestr o berchnogion blaenorol. Mae'r rhestr yn cynnwys nifer o eitemau o ddiddordeb Cymreig ond dim ond 12 o eitemau efo teitlau Cymraeg, sef Beibl William Morgan, 1588; Beibl Parry, 1620; Beibl, 1630; Beibl, 1677-78; Beibl, 1689-90; Beibl, 1690; Llyfr Gweddi Cyffredin, 1644; Llyfr Gweddi Cyffredin, 1683; Llyfr Gweddi Cyffredin, 1700; Arthur Dent: Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd, 1682; Charles Edwards; Y ffydd ddi-ffuant, 1677; a John Williams: Eglurhad byrr ar gatechism yr eglwys, 1699. Mae'n dda gweld sefydliadau yn cyhoeddi catalogau o'r hyn sydd yn eu meddiant er mwyn galluogi pobl i gael gweld beth sydd ar gael yno heb orfod mynd yno i edrych.

* * * *

**DYSG A DAWN:**
**Cyfrol Goffa Aneirin Lewis.**
**W. Alun Mathias ac**
**E. Wyn James (gol).**
**Cylch Llyfryddol Caerdydd.**

Yn Nhachwedd 1989 bu farw Aneirin Lewis, a fu hyd ei ymddeoliad yn Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Yr oedd yn ysgolhaig manwl a chraff, ac yn un o'r awduron pennaf ar lên a dysg Gymraeg y ddeunawfed ganrif. Yr oedd hefyd yn un o brif sylfaenwyr Cylch Llyfryddol Caerdydd, a bu'n Drysorydd y Cylch o'r dechrau yn 1986 hyd ei farw. Cafwyd ymateb brwd pan awgrymwyd y dylai'r Cylch gyhoeddi cyfrol o'i weithiau er cof amdano.

Prif gorff y gyfrol yw saith o ddarlithiau ac erthyglau sylweddol mewn meysydd y câi Aneirin Lewis ei gydnabod yn awdurdod ynddynt. Mae dwy o'r eitemau yn gweld golau dydd yma am y tro cyntaf, sef ei ddarlith i Gymdeithas Bob Owen ar 'Griffith John Williams a'i Lyfrgell' a'i Ddarlith Goffa G. J. Williams ar 'Ieuan Fardd a'i Gymdeithion'. Rhagflaenir yr eitemau hyn gan ddau ddetholiad o saith eitem yr un allan o weithiau cyhoeddedig eraill Aneirin Lewis. Ceir hefyd yn y gyfrol deyrngedau byrion o natur bersonol gan ddeg o'i gyfeillion ynghyd â llyfryddiaeth.

Argraffwyd y gyfrol yng Ngwasg Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac roedd yr argraffiad yn gyfyngedig i 200 o gopïau. Cyfrol oedd ar werth i danysgrifwyr oedd hon ac felly y cafodd ei hysbysebu yn y wasg genedlaethol. Ni fu ac nid yw'r gyfrol ar werth yn y siopau ond y mae yna lond dwrn o gopïau ar ôl gan Swyddogion Cylch Llyfryddol Caerdydd. Tua £25 yw'r pris. Gellir cael gwybodaeth bellach oddi wrth E. Wyn James, Ysgrifennydd Cylch Llyfryddol Caerdydd, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ. Ffôn (0222) 628754.

# AR WERTH

Mae aelod parchus a selog o'r Gymdeithas eisiau gwerthu'r eitemau diddorol a restrir isod ar fyrder er mwyn cael arian i dalu am rai o'r eitemau hanesyddol gwerthfawr oedd ar werth yn rhifyn Gwanwyn 1993 o *Y Casglwr* —(Gol.)

1. Rhestr o rifau ffôn **ex-directory** nas rhoddwyd i Dafydd ap Gwilym gan ei gariadon.
2. Croen un o ddefaid William Morgan.
3. Plât rhif car cyntaf Mary Jones, Llanfihangel y Pennant (BEI 81).
4. Potelaid o rwm a gafodd ei chymryd oddi ar Syr Henry Morgan ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.
5. Adlen wreiddiol stondin Sulwyn, a gafodd ei defnyddio'n ddiweddarach gan Owain Glyndŵr y tu allan i'w garafán.
6. Hen fideo Cwricwlwm Cenedlaethol, **Meistroli Ffrangeg** gan Jemima Nicholas.
7. Darlun gwreiddiol **Wele wrth y drws yn curo,** o gasgliad Syr Wyn Roberts.
8. Yr unig record a wnaed o Gôr Defaid Ponterwyd yn canu **Yr Arglwydd yw Fy Mugail.**
9. Cyllell Stanley a ddarganfuwyd yn sied Dr Livingstone.
10. Un ar ddeg o hen felysion licris unigryw o ardal Cydweli.

Anfonwch eich cynnig am yr eitemau yn unigol, mewn amlen dan sêl, gyda rhif yr eitem ar yr amlen at Y Golygydd, os gwelwch yn dda.

* * * *

***Rebecca and her daughters: being a history of the agrarian disturbances in Wales known as 'The Rebecca Riots';*** Henry Tobit Evans. Caerdydd, 1910. viii + 268 td. £21.

***Llyfr Tonau Cynulleidfaol;*** gan Ieuan Gwyllt. Yn y nodiant sol-ffa. Yn cynnwys ychwanegiadau 1871 a 1872. £7. Y prisiau yn cynnwys cludiant.

**J. Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion, Dyfed SY25 6AL.**


**SIOP LYFRAU'R HEN BOST**

**45 Stryd Fawr**
**Blaenau Ffestiniog**
**Gwynedd, LL41 3AA**
**Ffôn (0766) 831802**

Bydd gan Siop Lyfrau'r Hen Bost stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni eto ac edrychwn ymlaen at gael cyfle i estyn croeso i gyfeillion hen a newydd yno.
Fel arfer fe fydd gennym ddetholiad o lyfrau newydd yn ogystal â llwyth o rai ail-law.

COFIWCH ALW HEIBIO